COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD DRWY GYNHADLEDD FIDEO, DYDD GWENER 21 IONAWR 2022, 10:30 – 12:00

(y "**Cwmni**" a "**Festival 2022 Ltd**")
(y "**Rhaglen**" ac "**UNBOXED: Creativity in the UK**")

Presennol:

Faraz Tasmin	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Amali de Alwis MBE	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Roger Lewis	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru
Liam Hannaway	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon

Arsyllwyr yn Bresennol:

Greg Wilson	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Sonia Coates	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Daniel Coles	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Alison Breadon	PWC
Adam Richards	PWC

Yn bresennol:

Phil Batty	Cyfarwyddwr Gweithredol
Ian Reid	Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu (eitem 3)
David Grady	Prif Swyddog Ariannol
Caroline McGrory	Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni
Laura O'Flynn	Rheolwr Llywodraethu (Cymryd nodiadau)
Sarah Tromans	Pennaeth Rheolaeth Ariannol
Gabriella Butler	Yr Uwch-reolwr Cyllid (eitemau 4 – 7)
John Darnbrook	Pennaeth Integreiddio Busnes (eitemau 4 – 7)
Lucy Bailey	Uwch-gwnselydd Cyfreithiol (eitemau 4 – 7)
Ruth Marshall	Rheolwr Cynllunio Strategol (eitemau 4 – 7)
Matt McMahon	Uwch-reolwr Marchnata (eitem 2) Rheolwr
Andy Watson	Categori Cynorthwyol (eitem 2)

01/22 Croeso a phwrpas y cyfarfod

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol. Wrth adolygu'r agenda, pwysleisiodd y Cadeirydd mai anffurfiol oedd y cyfarfod eithriadol gyda phwyslais ar reoli risgiau i hwyluso trafodaeth fanylach ar feysydd allweddol y risgiau 'gradd goch' cyfredol mwyaf amserol, er mwyn rhoi canllawiau i'r Tîm Gweithredol. Bydd canlyniad y trafodaethau yn cynhyrchu 'Briff i'r Bwrdd' yn y cyfarfod ar 28 Ionawr.

02/22 Cymeradwyo'r Ffurflen Argymhelliad Dyfarniad Prynu Cyfryngau cyn y Bwrdd

Ymunodd y Rheolwr Categori Cynorthwyol â'r cyfarfod a lluniodd y papur (a gymerwyd fel y'i darllenwyd). Rhoddodd y Rheolwr Categori Cynorthwyol wybod am y broses gaffael hyd yma, a arweiniodd at y sefydliad a argymhellwyd yn y Ffurflen Argymhelliad Dyfarniad. Byddai'r sefydliad arfaethedig yn cefnogi'r amcanion cyfathrebu marchnata a gyflawnir wrth ymgysylltu, ar gyfer gweithgarwch personol ac all-lein. Nodwyd bod yr argymhelliad yn unol â'r gyllideb flynyddol hyd oes ac yn

cynnwys ymrwymiad yn ôl y gofyn drwy'r Cynllun Dirprwyo Ariannol, ac fe'i cefnogwyd gan y Tîm Rheoli Gweithredol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y sefydliad a argymhellwyd, gan awgrymu y dylid cynnwys naratif atodol o'r broses gaffael i gynorthwyo dealltwriaeth.

PENDERFYNWYD BOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG YN

Cymeradwyo'r Ffurflen Argymhelliad Dyfarniad Prynu Cyfryngau i'w chymeradwyo yn y Bwrdd ar 28 Ionawr.

CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Categori Cynorthwyol i gynnwys naratif atodol o'r broses gaffael yn y Ffurflen Argymhelliad Dyfarniad ar gyfer papur terfynol y Bwrdd.

03/22 Risg Strategol: Cadw'r Gweithlu

Ymunodd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i nodi'r dull integredig o gadw'r gweithlu ar draws Grŵp y Cwmni. Roedd Trysorlys EM wedi llofnodi'r strategaeth gydnabyddiaeth yn flaenorol, ac ers hynny roedd wedi ei hadolygu gan Grŵp Adolygu Adnoddau Dynol a Gweithlu UNBOXED.

Roedd achos busnes ar gyfer hyblygrwydd cyflog ar draws Grŵp y Cwmni wedi ei gyflwyno i Swyddfa'r Cabinet.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod y risg hon yn parhau a bod angen ei datrys.

04/22 Risgiau'r Rhaglen

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol sleid i ddangos cam y cylch prosiect y mae pob comisiwn arno ochr yn ochr â'i sgôr Coch Oren Gwyrdd. Cymerodd y Cyfarwyddwr Gweithredol bob prosiect coch yn ei dro a'i agor am drafodaeth fel y crynhoir yn Nodyn y Bwrdd ar gyfer y cyfarfod eithriadol ar 28 Ionawr.

05/22 Risgiau Gweithredol: MYND YN FYW

Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn falch o adrodd bod Our Plac ein Space ar y trywydd iawn ac y disgwylir archwiliad manwl yn y Bwrdd. Roedd About Us hefyd ar y trywydd iawn i fynd yn fyw mewn 5 wythnos gyda'r costau wrth gefn sydd eu hangen wrth iddynt symud lleoliadau a darpariaeth fyw.

Nid oes unrhyw risgiau ychwanegol mawr i'w hadrodd ar y gadwyn gyflenwi. Bydd contractau saernïo nad ydynt wedi eu dyfarnu eto yn cael eu hadolygu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

06/22 Risg Enw Da: Lledaeniad Daearyddol Digwyddiadau Byw

Roedd holl aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y sgwrs i drafod lleoliadau newydd wedi darfod ac y byddai bellach yn tynnu sylw oddi wrth y ddarpariaeth. Byddai'r Cadeirydd yn hysbysu'r Bwrdd bod y pwyslais bellach ar gyrraedd y gweithgarwch presennol.

07/22 Risgiau Ariannol

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am yr effaith amrywiol bosibl ar risgiau wrth gefn ac ariannol a gofynnwyd am roi hyn ar agenda 2 Chwefror. Nododd y Swyddfa

Archwilio Genedlaethol bwysigrwydd parhau i ddangos gwerth am arian y rhaglen yn rhan o drafodaethau parhaus.

08/22 Unrhyw Fusnes Arall

Teimlai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y dylid ystyried gwerthuso a gwaddol ar agenda yn y dyfodol.

Myfyrdodau a sylwadau olaf

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y nifer o gyfarfodydd diweddar a'r amseriadau, a gofynnodd am edrych ar y rhain o'r newydd. Gofynnodd y Pwyllgor i bob eitem gael ei chyflwyno â nodyn un dudalen, er mwyn paratoi a gosod disgwyliadau yn well.

CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Llywodraethu i fyfyrio ar y cyfarfodydd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol baratoi dogfennau i adlewyrchu'r cyfarfod hwn yn y Bwrdd ar 28 Ionawr.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00. Cadarnhawyd mai 2 Chwefror 2022 fydd dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf, ac mai cyfarfod rhithwir y bydd hwnnw.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:
Cyfarwyddwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Arsyllwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Y Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfon at y Cadeirydd:	6 Mehefin 2022
Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr:	6 Mehefin 2022
Dyddiad dosbarthu:	7 Gorffennaf 2022